IFOR INTERNATIONAL FELLOWSHIP OF RECONCILIATION

Datganiad o gyfarfod EUFOR yn Torino, 12-15 o Ebrill. 2018

Heddiw, fe gondemniwyd ymosodiadau ar Syria yng nghyfarfod canghennau Ewrop o'r Gymrodoriaeth Ryngwladol y Cymod yn Torino.

Rydym yn anghytuno'n gryf ar y defnydd o arfau cemegol sy'n groes i gyfraith ryngwladol. Fodd bynnag, mae cyfraith ryngwladol hefyd yn condemnio'r defnydd o rym ar unrhyw wladwriaeth heb dderbyn awdurdod gan Genhedloedd Unedig ymlaen llaw. Two wrongs do not make a right.

Yn hytrach na gweithredu unochrog, dylai'r ymchwiliad gan y Cenhedloedd Unedig fod wedi ei weithredu'n llawn. Mi fydd y streiciau awyr wedi cymylu'r dystiolaeth sydd ei angen i ddod â'r rhai sy'n gyfrifol am ddefnyddio arfau cemegol i gyfrif.

Ni fydd trais yn gwneud dim ond lladd mwy o bobl yn Syria. Mae cannoedd ar filoedd o bobl yn barod wedi cael eu lladd, gyda miliynau bellach yn ffoaduriaid. Ni fydd y streiciau awyr yn arwain at gytundeb heddwch

Mae hanes yn profi'r pwysigrwydd o droi cefn ar pob math o drais ac i chwilio am ffyrdd heddwch a chymod yn Syria ac ar draws y byd.

Rhyfel sy'n dinistrio – Heddwch sy'n adfer.

Rhyfel sy'n gwahanu – Heddwch sy'n uno.

Rhyfel sy'n gollwng bomiau – Heddwch sy'n gweithio trwy ddeialog .

Rhyfel sy'n creu dioddefwyr a gelynion – Heddwch sy'n creu cymuned a chyfeillgarwch.

Nid rhyfel yw'r ateb – Heddwch yw'r ateb.

Rydym yn argyhoeddedig mai dim ond y ffordd ddi-drais all gyflawni heddwch . Mae angen ein holl ymdrechion a'n cryfder i wireddu'r nôd honno..

IFOR International Secretariat
Postbus 1528 ℡ 3500 BM Utrecht ℡ The Netherlands
+31.30.303.9930
www.ifor.org